# **Gwerthuso Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru):** Astudiaeth Ansoddol o Agweddau'r Cyhoedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o Ymchwil

Rhif y ddogfen ymchwil gymdeithasol: 87/2014

## Dull Ymchwil

Defnyddiwyd dull cyfweld ansoddol i gynnal yr ymchwil, gydag ystod eang o aelodau'r cyhoedd ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 grŵp ffocws a saith cyfweliad manwl, a arweiniodd at 87 o gyfranogwyr yn cymryd rhan. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 10fed a 17eg Mawrth 2014.

Cynhaliwyd yr ymchwil yn:

- Aberdâr
- Aberystwyth
- Caerdydd
- Caernarfon
- Abertawe

## Nodau'r Ymchwil

Prif nod yr ymchwil oedd archwilio barn y cyhoedd o ran cyflwyno'r system feddal o optio allan o roi organau yng Nghymru. Yr amcanion penodol oedd:

- Ymchwilio ymwybyddiaeth, agweddau ac ymddygiad unigolion mewn perthynas â rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru.
- Archwilio'n fanylach y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r arolygon meintiol parhaus o agweddau'r cyhoedd.
- Adeiladu ar ganfyddiadau'r ymchwil ansoddol cychwynnol ag aelodau o'r cyhoedd a gynhaliwyd yn 2012.
- Cael gafael ar agweddau sy'n ymwneud â rôl y teulu o ran rhoi organau ac ymchwilio iddynt.
- Archwilio cymhellion a rhwystrau i roi organau; optio i mewn neu optio allan; a thrafod dymuniadau gydag aelodau'r teulu yn ymwneud â rhoi organau.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

## Crynodeb Gweithredol

*Ymwybyddiaeth, agweddau ac ymddygiad mewn perthynas â rhoi organau*

Roedd yn amlwg bod cytundeb cryf o ran pwysigrwydd rhoi organau.

Roedd pob cyfranogwr yn honni eu bod yn deall y broses bresennol o roi organau a chredant y gallai unigolyn fod yn rhoddwr drwy dicio blwch ar drwydded yrru neu gofrestru a chario cerdyn.

Un fantais ganfyddedig o'r system bresennol yw ei bod yn seiliedig ar benderfyniad cadarnhaol i optio i mewn sydd, yn ei dro, yn awgrymu bod penderfyniad y rhoddwr yn derfynol, h.y. ni fydd unrhyw amheuaeth ar ôl iddo farw. Mae hon yn ddadl arbennig o gymhellol i'r rheini nad ydynt am drafod eu penderfyniad i gofrestru fel rhoddwr organau gydag aelodau o'u teulu.

Mantais arall sydd gan y system bresennol yn ôl cyfranogwyr yw y gall rhoddwyr cofrestredig ddewis pa organau y maent am eu rhoi.

Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol nad yw'r system bresennol yn annog digon o roddwyr, sy'n golygu bod llawer o gleifion yn gorfod aros amser hir ar gyfer llawdriniaethau trawsblannu organau.

*Ymwybyddiaeth ac agweddau tuag at gyflwyno'r system feddal o optio allan yng Nghymru*

Gallai'r mwyafrif ddweud y byddai'r system newydd yn seiliedig ar bobl yn optio allan yn hytrach nag ar optio i mewn. Fodd bynnag, dyma'r cyfan roedden nhw'n ei wybod yn aml, a gododd lawer o gwestiynau yn ystod y sesiynau ymchwil. Mae'r rhan fwyaf yn nodi mai prif fantais y system newydd yw y bydd yn sicrhau bod mwy o organau ar gael, yn lleihau rhestrau aros ac yn helpu i achub mwy o fywydau.

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol tuag at y system feddal o optio allan gan eu bod o'r farn y bydd yn helpu i achub bywydau. Fodd bynnag, ceir pryderon o hyd ynghylch sut y caiff y system newydd ei chyflwyno a phryd fydd hyn yn digwydd. Roedd awydd cryf am lefelau da o gyhoeddusrwydd er mwyn rhoi amser i bobl optio allan pe dymunant wneud hynny.

*Agweddau tuag at rôl y teulu mewn perthynas â rhoi organau*

Mae llawer o gyfranogwyr yn teimlo mai mater preifat oedd eu penderfyniad i gofrestru fel rhoddwr organau ac nad oedd angen ei drafod ag aelodau'r teulu. Yn aml, roedd hyn oherwydd diffyg cyd-destun neu gyfle addas i godi'r mater, tra i eraill roedd er mwyn osgoi gwrthdaro ag aelodau o'r teulu a allai anghytuno.  Fodd bynnag, unwaith y cafwyd brîff ar y system feddal newydd i optio allan, cytunodd pawb y byddai'n bwysig trafod y mater hwn â'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod aelodau'r teulu yn ymwybodol o'u dymuniadau ynghylch rhoi organau ac yn eu deall.

Canfu rhai fod y system newydd yn rhoi mwy o bwerau gwneud penderfyniadau i deuluoedd yr ymadawedig, a fyddai'n lleihau effaith y penderfyniad gwreiddiol o optio i mewn.    Daeth yn glir bod angen egluro rôl y teulu ymhellach, yn arbennig o ran y ffaith na fyddai clinigwyr yn bwrw ymlaen os bydd y teulu mewn trallod; roedd gan gyfranogwyr bryderon ynghylch sut y caiff hyn ei fesur yn ymarferol.

*Cymhellion a rhwystrau i roi organau, optio i mewn neu optio allan a thrafod dymuniadau'n ymwneud â rhoi organau ag aelodau'r teulu*

Roedd y cymhelliant i gofrestru fel rhoddwr organau yn gryf ymysg pob cyfranogwr am eu bod o'r farn y gall hyn helpu i achub bywydau. Fodd bynnag, roedd barn gyffredinol bod rhwystrau'n bodoli o hyd i rai aelodau o'r gymuned, gan gynnwys:

- Pobl hŷn
- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl
- Teuluoedd incwm isel
- Pobl ddigartref
- Grwpiau ffydd gan gynnwys: Mwslimiaid, Tystion Jehova a Christnogion.

Cafwyd ymdeimlad cryf nad yw rhai o'r grwpiau hyn yn teimlo'n ddigon awdurdodedig i arfer eu hawliau ac felly ni ddylid eu cynnwys yn y system feddal o optio allan.

O ran grwpiau ffydd, roedd cryfder y gwrthwynebiad yn amrywio yn ôl ymlyniad i ffydd neu p'un a oedd

dylanwadau diwylliannol yn cyfyngu ar unigolion ai peidio. Er nad oedd rhai cyfranogwyr yn grefyddol eu hunain, gwnaethant ragweld y byddai rhwystrau i eraill ar sail crefydd a normau diwylliannol hefyd.

Nododd rhai heriau i aelodau o rai cymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig nad oes ganddynt ddigon o sgiliau Saesneg, ac felly gallant golli unrhyw ddulliau cyfathrebu am y newid oni bai y cânt eu targedu drwy raglen allgymorth yn y gymuned, a hynny efallai drwy bobl yn esbonio'r gyfraith iddynt yn eu hiaith eu hunain mewn canolfannau cymunedol.

Derbyniwyd yn gyffredinol y bydd yn bwysig siarad am roi organau â theuluoedd o dan y system newydd. Fodd bynnag, cafwyd rhai teimladau cymysg ynghylch p'un a fyddent yn trafod y mater a chyda phwy.

Derbyniodd y rhai a oedd yn erbyn y system newydd fod angen cynnal sgwrs ag aelodau'r teulu ond gwnaethant hyn gyda rhywfaint o bryder. Roeddent yn ofni y gallai achosi gwrthdaro o fewn teuluoedd yr ymadawedig oherwydd safbwyntiau gwahanol ar roi organau. Teimlai rhai y gallai'r system newydd greu stigma ymysg y rhai a oedd am optio allan ac y gallai hyn arwain at sgyrsiau anodd ymysg aelodau'r teulu.

Roedd y rhai a oedd yn gadarnhaol ynghylch y ddeddfwriaeth feddal o optio allan yn llai ffafriol am rôl y teulu o dan y system newydd. Roeddent o'r farn bod y system newydd yn rhoi mwy o rôl i'r teulu, y gellir ei esbonio gan ddiffyg dealltwriaeth yn gyffredinol am rôl y teulu o dan y system bresennol. Roeddent o'r farn mai eu penderfyniad nhw eu hunain yn unig oedd rhoi organau, ac, unwaith y byddent yn cydsynio i roi organau (optio i mewn o dan y system bresennol neu heb optio i mewn o dan y system newydd) yna ni ddylai teulu allu gwrthdroi eu penderfyniad.

Er iddo gael ei ystyried yn fater pwysig iawn i'w drafod â'r teulu, cafwyd consensws cyffredin ei fod hefyd yn fater anodd ei godi. Fodd bynnag, ystyriwyd yn gymharol hyderus y gallai ymgyrchoedd yn y

dyfodol helpu i hyrwyddo sgyrsiau a thrafodaethau am roi organau ymysg teulu a ffrindiau.

*Llywio a gwella gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer rhoi organau*

Yn ogystal â chynhyrchu safbwyntiau ar agweddau tuag at y system feddal o optio allan a rôl y teulu, daeth yn glir bod bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system newydd. Cytunodd pawb y byddai'r system newydd yn arwain yn anochel at leihau'r angen am ddialysis a thriniaethau ac felly, byddai'n arbed costau yn ogystal ag achub bywydau.

Cwestiynodd y rheini a oedd yn ansicr pa mor gost-effeithiol y byddai'r system newydd, p'un a fyddai'r systemau TG yn gallu ymdopi â'r nifer (ganfyddedig) o bobl a fyddai'n optio allan a ph'un a fyddai digon o staff i ymdopi â'r cynnydd (canfyddedig) mewn llwyth gwaith.

Roedd y rhai nad oeddent yn ffafrio'r system newydd yn ategu'r pryderon hyn, ond roeddent hefyd yn meddwl tybed ai ymarfer i arbed costau i'r llywodraeth yn unig oedd y newid hwn. Er enghraifft, awgrymodd rhai y byddai'r system newydd yn golygu na fyddai angen llawer o hysbysebu a chyhoeddusrwydd o ran rhoi organau, os o gwbl. Nododd eraill na fyddai'n rhaid i'r GIG yng Nghymru wario cymaint o arian ar beiriannau dialysis. Rhagwelodd eraill gynnydd mawr mewn rhoddwyr hefyd, felly roeddent yn pryderu a fyddai digon o adnoddau yn y gwasanaeth iechyd i ymdopi â hyn.

Rhoddir cryn dipyn o bwyslais ar wybodaeth fanwl ac amserol am y broses gofrestru er mwyn galluogi pobl i wneud penderfyniad hyddysg o ran p'un a ydynt am optio allan ai peidio. Cafwyd pryder hefyd y gallai rhai adrannau o gymdeithas fethu unrhyw weithgareddau codi ymwybyddiaeth oni fyddai'r negeseuon yn hygyrch i bawb ac yn barhaus, e.e. sianeli cyfathrebu amrywiol gan gynnwys y wasg, teledu, radio a hysbysebu awyr agored gyhyd â phosibl er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

Roedd eu pryder nesaf yn ymwneud â rhoi gwybod am y broses gofrestru. Dyma oedd yr achos yn arbennig i'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r system feddal o optio allan neu'n ansicr ohoni. Yn yr un modd â'r sianeli cyfathrebu amrywiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth, roeddent am weld dulliau lluosog ar gyfer cofrestru, gan gynnwys y canlynol:

- Llythyr swyddogol a phersonol gyda gwybodaeth am y newid yn y gyfraith a'r camau nesaf y gallant eu cymryd;
- Llwyfan ar-lein gyda chyfrif personol i nodi eu manylion a'u dewisiadau;
- Gwybodaeth ar gael o'u meddygfa.

Yn bwysicaf oll, maent am weld dyddiad penodol i 'weithredu ar' neu 'weithredu erbyn' am eu bod o'r farn y byddai hyn yn annog pobl i weithredu a mynd i'r afael ag unrhyw ansicrwydd. Roedd rhai yn ceisio meddwl tybed a fyddai terfyn amser ar gyfer optio allan, felly byddai angen mynd i'r afael â hyn mewn unrhyw ddulliau cyfathrebu.

Dywedodd cyfranogwyr y byddai'n well ganddynt pe byddai dulliau cyfathrebu yn hygyrch a pharhaus. Yn ogystal â hyn, roedd angen dulliau cyfathrebu a fyddai'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon tebygol yr unigolyn am y system newydd - rhywbeth tebyg i *'beth mae hyn yn ei olygu i mi a beth y dylwn i ei wneud nawr?'*

Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran hysbysebion teledu am y system feddal newydd o optio allan a'u dewisiadau o ran actorion neu bobl sydd wedi cael profiad o roi organau mewn bywyd go iawn.

Teimlai'r mwyafrif y gallai hysbysebion teledu â mwy o wybodaeth annog a helpu pobl i drafod. Yn eu mysg, cafwyd teimlad cryf y dylai unrhyw hysbysebu gynnwys pobl go iawn sydd wedi rhoi neu wedi cael organau gan y byddai'r neges yn un fwy pwerus.

Yn Aberystwyth a Chaernarfon, awgrymodd rhai cyfranogwyr Cymraeg y gallai stori gref mewn drama deledu leol fod yn ffordd dda o gyfleu'r neges am roi organau a'r manylion.

Bydd gwybodaeth am y broses feddal o optio allan yn rhan bwysig o'r dull cyfathrebu. Felly, mae'n hanfodol bod negeseuon am y system newydd yn hawdd i'w deall ac yn arwain at alwad i weithredu. Fel rhan o'r ymarfer ymchwil, cafodd tair neges eu profi er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn glir, yn berthnasol ac yn taro deuddeg.

**Neges 1a**

*"Bydd gennych dri dewis. Gallwch fod yn rhoddwr drwy optio i mewn neu drwy wneud dim. Bydd gwneud dim yr un fath â dewis bod yn rhoddwr. Os nad ydych am fod yn rhoddwr, gallwch gofrestru penderfyniad i optio allan."*

Roedd Neges 1a yn glir, cryno, diamwys ac yn bwysicaf oll, yn fyr i'r rhan fwyaf.

Fodd bynnag, nid oedd y cywair yn iawn i eraill, yn enwedig y rheini a oedd yn teimlo bod pwysau yn cael ei roi arnynt i 'gydymffurfio' drwy'r defnydd o "gallwch" a "bydd gwneud dim".

**Neges 1b**

*"O dan y system newydd, gallwch gytuno i fod yn rhoddwr, naill ai drwy gofrestru eich penderfyniad i optio i mewn neu drwy beidio â gwneud unrhyw beth o gwbl, ac felly tybir eich bod yn rhoi eich caniatâd. Bydd gwneud dim yr un peth â chytuno i fod yn rhoddwr a chewch eich trin yn yr un ffordd â'r rheini sydd wedi cofrestru penderfyniad i optio i mewn. Os nad ydych am fod yn rhoddwr, byddwch hefyd yn gallu cofrestru penderfyniad i optio allan."*

Ystyriodd rhai mai fersiwn hirach o'r neges gyntaf oedd hon. Y prif wahaniaeth yw ei fod yn ymddangos fel petai yn cynrychioli'r tri dewis yn glir, yn wahanol i'r ddau ddewis yn y neges gyntaf. Roedd y neges gyffredinol yn ymddangos yn ddryslyd ac ailadroddus, gyda gormod o ddefnydd o'r geiriau 'optio i mewn' ac 'optio allan'. Teimlai eraill y byddai'r defnydd o eiriau cymhleth fel 'tybio' yn drysu llawer o bobl. Roedd rhai yn dehongli 'tybir' fel 'cymerir yn ganiataol' ac felly cafwyd yr ymateb canlynol:

“Sut y gallant gymryd yn ganiataol bod rhywun yn rhoi caniatâd?”

Dyn, Aberystwyth, Cadarnhaol, rhwng 40 a 59 oed

**Neges 2**

*"Mae teuluoedd yn rhan gyson o'r penderfyniad ynghylch rhoi organau, felly mae'n bwysig eich bod yn trafod eich penderfyniad ag anwyliaid. Caiff gormod o roddion sy'n achub bywydau eu colli am nad yw teuluoedd yn sicr o ddymuniadau eu hanwyliaid. Dyna pam y bydd Cymru yn newid y ffordd y caiff organau eu rhoi ar 1 Rhagfyr 2015. Bydd y system newydd yn ei gwneud yn haws i chi wneud penderfyniad clir o ran p'un a ydych am fod yn rhoddwr organau ai peidio"*

Derbyniwyd y neges hon yn gadarnhaol gan bawb, waeth beth fo'u teimladau am gyflwyno'r system feddal o optio allan. Roeddent yn teimlo bod hon yn neges fwy meddal, a oedd yn gynyrfiadol yn ogystal â bod yn llawn gwybodaeth am bwysigrwydd rhoi organau. Ystyriwyd bod yr iaith yn llai awdurdodol ac yn annog tosturi ac empathi.

Roedd rheswm cadarn y tu ôl i'r neges a oedd yn taro deuddeg â phawb, h.y. "Caiff gormod o roddion sy'n achub bywydau eu colli am nad yw teuluoedd yn sicr". I lawer, teimlai fel dewis go iawn gan ei fod yn darparu'r cyd-destun cywir i drafod hyn â'u teuluoedd.

*Gwella'r neges*

Yn ddelfrydol, dylai'r neges fod yn glir ac yn fyr, gyda chyfeiriadau at wybodaeth bellach wedi'u harddangos yn amlwg.  Mae'r gwelliannau eraill a awgrymwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ei gwneud hi'n gliriach bod newid yn digwydd a'r rheswm dros hyn cyn egluro'r opsiynau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud;
- Cynnwys y dyddiad
- Gwybodaeth bellach am yr opsiwn "gwneud dim", sut mae hyn yn wahanol i optio i mewn a'r goblygiadau;
- Mwy o ffocws ar deuluoedd er mwyn iddi fod yn haws codi'r pwnc ag aelodau o'r teulu;
- Cyflwyno'r dewisiadau'n gliriach yn hytrach na'r canlyniadau a gwneud y cywair yn fwy meddal.

Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai unrhyw gyfathrebu ynghylch y system feddal o optio allan yn y misoedd nesaf yn ennyn diddordeb ac yn ei gwneud hi'n haws trafod hyn gyda theulu a ffrindiau.
Dengys safbwyntiau'r ymchwil hyd yma bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y mae 'optio i mewn' a 'gwneud dim' yn gwahaniaethu.
Codwyd llawer o gwestiynau o'r sesiynau ymchwil, sy'n dangos y bwlch presennol mewn gwybodaeth a'r anghenion presennol o ran gwybodaeth, a ddylai, felly, lywio unrhyw faterion o ran rhaglenni addysg.

Awdur: Rezina Chowdhury
GfK NOP

ISBN 978-1-4734-1589-8
7 Hydref 2014